# Y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog

## Cofnodion CSO(2)-03-06 (mins)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mawrth 6 Mehefin 2006
### Amser y cyfarfod: Yn syth ar ôl y Cyfarfod Llawn
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Hutt | Bro Morgannwg |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |

#### Swyddogion

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Paul Silk | Clerc y Cynulliad |
| Peter Jones | Cwnsler Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad |

#### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Siân Wilkins | Clerc y Pwyllgor |
| Gareth Williams | Clerc y Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| Sarah Beasley | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Nododd y Cadeirydd na fyddai modd cael dirprwyon hyd nes bod y cyfarfod llawn wedi cymeradwyo'r newidiadau angenrheidiol i'r rheolau sefydlog. Bwriedir trafod y newidiadau hyn ar 7 Mehefin 2006.

### Eitem 2: Y Rhaglen Waith

### Papur: CSO(2)-03-06 (p1)

2.1 Nododd y Pwyllgor ei gylch gorchwyl.

2.2 Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau ar amserlen gwaith y Pwyllgor. Cytunwyd i benderfynu ar ddyddiadau'r cyfarfodydd y tu allan i'r Pwyllgor. [Gweithredu]

2.3 Cytunodd y Pwyllgor ar y gyfres o egwyddorion a amlinellwyd ym mharagraff 7 y papur.

2.4 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Pwyllgor fod llythyrau ymgynghori wedi'u hanfon at y Cadeiryddion priodol, i Swyddfa'r Llywydd ac at Banel y Cadeiryddion (para 8.2).

2.5 Cadarnhaodd y Cadeirydd fod ymweliad ymchwil â'r Alban wedi'i drefnu ar 22-23 Mehefin 2006. Oherwydd na fydd Jocelyn Davies ar gael, cytunwyd y caiff Plaid Cymru anfon dirprwy er mwyn sicrhau bod cynrychiolwyr o bob plaid yn bresennol. Bydd y Clercod yn anfon copi o raglen yr ymweliad at yr Aelodau maes o law. [Gweithredu]

2.6 O ystyried swmp gwaith y Pwyllgor a'r amser sydd ar gael ar ei gyfer, dywedodd y Cadeirydd y bydd yn rhaid i'r Pwyllgor ystyried y cwestiynau penodol o egwyddor ar gyfer cymaint o reolau sefydlog â phosib cyn toriad yr haf er mwyn i'r rheolau sefydlog newydd gael eu drafftio yn ystod y toriad. (para 8.4)

### Eitem 3: Rheolau Sefydlog – Y Drefn Bosibl a Goblygiadau'r Mesur

### Papur: CSO(2)-03-06 (p2)

3.1 Nododd y Pwyllgor y dull a amlinellwyd yn y papur.

3.2 Cadarnhaodd y Cadeirydd y câi'r rheolau sefydlog eu drafftio mewn ffordd a fyddai'n caniatáu i'r Pwyllgor newid eu trefn yn ôl y galw.

3.3 Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r Aelodau fod am ystyried trefn Rheolau Sefydlog yr Alban a pha un a fyddai'r drefn honno yn addas ar gyfer Rheolau Sefydlog y Cynulliad.

## Eitem 4: Rheolau Sefydlog ar gyfer y Cynulliad yn y dyfodol

**Papur: CSO(2)-03-06 (p3)**

**CSO(2)-03-06 (p4)**

**CSO(2)-03-06 (p5)**

4.1 Cytunodd y Pwyllgor i drafod y cwestiynau a godwyd yn y papurau mewn cyfarfod anffurfiol.

4.2 O ran papur 5, bydd yr ysgrifenyddiaeth yn ystyried ymhellach pwy fydd yn gyfrifol am bwyntiau o drefn mewn cyfarfodydd pwyllgor. [Gweithredu]

Gwasanaeth y Pwyllgorau